Gwybodaeth ar gyfer Cleifion a Gofalwyr
Y Gwasanaeth Podiatreg

Adran Podiatreg a Chyfarpar Llawfeddygol

Mae'r daflen hon yn esbonio rôl y Gwasanaeth Podiatreg wy'n weithredol ym mwrdeistrefi sirol Gwent.

Beth yw Podiatreg?

'Mae'r proffesiwn podiatreg wedi datblygu o'i wreiddiau mewn triniaeth traed a bellach yn arbenigedd meddygol yn delio gydag asesiadau, diagnosis a thrin y goes'. (Cymdeithas Ciropodyddion a Phodiatryddion 2002)

Beth gallaf ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Podiatreg?

Mae'r Gwasanaeth Podiatreg yn arbenigedd meddygol sy'n delio gydag asesiadau, diagnosis a thrin anhwylderau'r droed a'r goes. Mae'r gwasanaeth yn darparu:-

- Gofal traed ar sail anghenion clinigol
- Mynediad cyflym i glinigau wlserau troed
- Llawdriniaethau bychain ar gyfer cyflyrau traed ac ewinedd
- Rhaglenni triniaeth ar gyfer pobl ag anhwylderau'r goes
- Asesu problemau osgo/cerdded
- Presgripsiynu a chreu orthodegau (mewnwadnau arbennig)
- Monitro ac ailasesu parhaus i sicrhau gofal addas i'r droed
- Cyngor ar ofal traed/Sesiynau addysg iechyd traed i ymbweru cleifion

Sut ydw i'n cael mynediad at y Gwasanaeth Podiatreg?

Gallwch gael mynediad at y gwasanaeth Podiatreg drwy ofyn i'ch Meddyg Teulu, Nyrs eich Meddygfa neu weithiwr gofal iechyd arall eich atgyfeirio ar gyfer asesiad.

Nod y Gwasanaeth Podiatreg yw cysylltu â chleifion o fewn 14 wythnos o'r atgyfeiriad. Bydd cleifion risg uchel sydd â chyflyrau meddygol a allai greu risg o heintiad, wlserau neu golli aelod o'r corff yn cael blaenoriaeth.

Mae atgyfeiriadau at y gwasanaeth yn cael eu hasesu ar sail eich anghenion meddygol a phodiatraidd. Mae'n bosibl y cynigir apwyntiad asesu mewn clinig i chi a/neu wahoddiad i sesiwn addysg gofal traed Ymbweru Cleifion.

Beth yw Sesiynau Addysg Ymbweru Cleifion?

Nid oes angen triniaeth feddygol ar bob cyflwr troed. Mae sesiynau addysg yn cael eu cynnal gan Podiastriaid fydd yn dangos i chi e/neu'ch gofalwr sut i hunan-ofalu am eich cyflwr traed. Os cewch gynnig sesiwn addysg, bydd gwahoddiad i fynychu yn cael ei anfon atoch. Wedi i chi fynychu'r sesiynau addysg byddwch yn cael eich gollwng o'r gwasanaeth i reoli'ch anghenion traed eich hun.

Beth sy'n digwydd mewn Asesiad Clinig?

Os cewch gynnig asesiad mewn clinig, bydd apwyntiad yn cael ei wneud ar eich cyfer mewn clinig lleol. Yn yr apwyntiad hwn, bydd y pediatrydd yn asesu eich anghenion gofal traed ac yn cymryd hanes meddygol llawn. **Mae'n bwysig iawn eich bod yn dod â rhestr lawn o'r feddyginiaeth rydych chi'n ei chymryd.** Efallai y derbyniwch driniaeth ac addysg iechyd a thraed. Os bydd angen triniaeth ddilynol trafodir pecynnau gofal, ond mae'n bosibl y bydd yr apwyntiad asesu'n datrys eich problem/au traed a byddwch wedyn yn cael eich rhyddhau gyda chyfarwyddyd ynghylch rheoli eich anghenion iechyd traed.

Cysylltu â Ni

Gobeithio bod y daflen hon o fudd i chi. Os oes ang rhagor o wybodaeth arnoch am y Gwasanaeth Podiatreg, neu os hoffech gynnig sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â:-

Pennaeth Gwasanaeth
Gweinyddiaeth Podiatreg
Canolfan Iechyd Rhisga
Cromwell Road
Rhisga NP11 6YF

☎ 01633 615225

Nodiadau

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

"This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".